

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Deintyddfa Llandeilo Road

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Llandeilo Road fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Cross Hands Dental Care Ltd sy'n berchen ar Ddeintyddfa Llandeilo Road, ac mae'n darparu gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG i gleifion o bob grŵp oedran yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith ansawdd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd, sef yr unigolyn cyfrifol¹ hefyd, a rheolwr cofrestredig² y practis, ddydd Mercher 16 Mehefin 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau a roddwyd ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?
- Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gfael ar wasanaethau yn briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi addasu yn sgil COVID-19?

¹ ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017).

² ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Aseiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol
- Rhestr wirio ddyddiol ar gyfer pob deintyddfa

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal aseidiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiâu a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Gwelsom fod y practis wedi cyflawni aseiad risg cyffredinol manwl, a oedd yn cynnwys aseidiadau o'r amgylchedd, cyfarpar ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion sy'n ymweld â'r practis. Nodwyd gennym fod yr aseiad risg yn cynnwys dyddiad adolygu.

Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai dim ond drwy drefnu apwyntiad ymlaen llaw y gall unrhyw gleifion y mae angen iddynt fynychu'r practis wneud hynny, a'u bod yn cadarnhau eu bod wedi cyrraedd dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ei sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19 drwy'r porth cleifion, wrth iddynt ddiweddarau eu hanes meddygol. Caiff y cleifion hefyd eu sgrinio cyn cael mynd i mewn i'r practis ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Mae'r cleifion hynny na allant ddefnyddio'r porth cleifion yn cael eu sgrinio pan fyddant yn trefnu eu hapwyntiadau er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ba symptomau fyddai'n eu hatal rhag cael mynd i mewn i'r practis ar y diwrnod dan sylw.

Dywedwyd wrthym fod modd mynd i mewn i un o'r deintyddfeydd yn syth o'r tu allan drwy ddrws allanfa dân, a bod modd mynd i mewn i'r tair deintyddfa arall drwy'r brif fynedfa. Dywedwyd wrthym fod digon o le ym mhob un o'r pedair deintyddfa, a bod modd cadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym hefyd y cymerir gofal i gyfyngu nifer y cleifion sy'n mynychu ar yr un pryd a bod y staff sy'n derbyn cleifion ar y safle yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol. Caiff apwyntiadau dilynol eu trefnu gan y deintydd tra bod y claf yn y deintyddfa o hyd er mwyn osgoi gorfod gwneud hynny yn y dderbynfa, gan felly leihau'r risg o groesheintio. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn bwriadu parhau â'r trefniant hwn am gyfnod amhenodol, gan ei fod yn rhoi mwy o reolaeth i'r staff clinigol dros eu llwyth gwaith.

Dyweddod y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan un o'r nyrsys deintyddol gyfrifoldeb dirprwyedig dros wirio'r cyfarpar brys, y cyffuriau, yr ocsigen a'r system larwm tân bob wythnos. Pe byddai'r nyrs hon yn absennol, byddai'r uwch-nyrs ddeintyddol yn dirprwyo'r dasg i un o'r aelodau eraill o staff.

Canmolodd y rheolwr cofrestredig staff y practis am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Datganiad polisi a Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer COVID-19
- Asesiad risg COVID-19
- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05³ a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella y tynnwyd sylw atynt
- Amserlenni glanhau'r deintyddfeydd
- Cofnodion o wiriadau dyddiol o awtoclafau
- Cofnodion bath uwchsain
- Gweithdrefn glanhau â llaw ar gyfer cyfarpar deintyddol
- Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer cyfnod gostwng lefel rhybudd COVID-19

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth glir o'r Weithdrefn Weithredu Safonol⁴ ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19. Bwriedir i bob lleoliad gofal deintyddol yng Nghymru ddefnyddio'r canllawiau. Cafodd newidiadau i'r Weithdrefn Weithredu Safonol eu cyfleu i'r staff drwy

³ Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

⁴ <https://llyw.cymru/rheoli-gofal-deintyddol-cleifion-nad-ydynt-wedu-heintio-covid-19>

gyfarfodydd ar-lein i ddechrau, a thrwy drafodaethau wyneb yn wyneb yn fwy diweddar.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi cael diweddariadau rheolaidd ynglŷn â COVID-19. Caiff unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau newydd eu trafod â'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall goblygiadau'r newidiadau i'w gwaith.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant mewnol, gan gynnwys atal a rheoli heintiau a defnyddio PPE yn gywir h.y. ei wisgo a'i ddiogel, a'i waredu'n ddiogel ar ôl ei ddefnyddio.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff sy'n defnyddio masgiau wyneb FFP3⁵ wedi cael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio'n iawn a'i fod yn cynnig diogelwch digonol.

Dyweddwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro'n rheolaidd. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn rhagweld y byddai unrhyw broblemau yn cael gafeael ar PPE yn y dyfodol.

Gwelsom fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan y rheolwr cofrestredig ym mis Mai 2021, gan ddefnyddio adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru⁶, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Ystyriwyd bod hyn yn arfer dda am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Gwelsom fod cynllun gweithredu wedi cael ei lunio i fynd i'r afael ag unrhyw faterion y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr archwiliad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn bwriadu cwblhau'r archwiliad hwn bob chwe mis er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Dangosodd tystiolaeth a ddogfennwyd fod pob deintyddfa yn cael ei glanhau'n drylwyr bob dydd. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod yr awtoclafau⁷ a'r bath uwchsain⁸ yn cael eu harchwilio bob dydd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad yw wedi gorfod rhoi triniaeth i gleifion sy'n dangos symptomau COVID-19 neu sy'n aros am ganlyniad prawf COVID-19 hyd yma, a phe bai angen, y byddai'r cleifion hynny'n cael eu gweld ar ddiwedd y diwrnod gwaith. Byddai'r staff yn gwisgo PPE llawn yn y ddeintyddfa, a byddai unrhyw ardaloedd eraill yn y practis y bu'r claf ynddynt yn cael eu glanhau'n drylwyr.

⁵ Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bach yn yr awyr a all gynnwys feirysau.

⁶ Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu i sicrhau Cymru iachach. Mae'n Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn GIG Cymru ac yn eistedd ochr yn ochr ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd.

⁷ Eitemau o gyfarpar a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offerynnau a deunyddiau a ddefnyddir yn ystod triniaethau proffesiynol yw awtoclafau.

⁸ Mae glanhawr uwchsain yn cael gwared ar fiolwyth gan ddefnyddio tonnau sain a gynhyrchir gan ynni trydanol. Wrth i'r tonnau sain symud drwy'r hydoddiant glanhau hylif, maent yn creu'r ffurfiant a hwrdd o filiynau o swigod bach.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Ystyriwyd a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Datganiad o Ddiben
- Taflen Wybodaeth i Gleifion
- Gweithdrefn Cynllunio ar gyfer Trychinebau ac Argyfyngau
- Cofnodion personél i gynnwys hyfforddiant staff
- Cofnodion archwiliadau clinigol
- Polisi cydsyniad
- Adroddiad Ansawdd a Safonau 2020
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau i nifer uchel o gleifion sy'n siarad Cymraeg ac mae'n galonogol nodi bod y rhan fwyaf o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae gan y practis wefan ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion. Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Ar hyn o bryd, dim ond yn Saesneg y mae'r dogfennau hyn ar gael. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n ystyried cyfieithu'r rhain i'r Gymraeg pan gaiff y dogfennau eu hadolygu a'u diweddarau nesaf.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, h.y. archwiliad rheoli heintiau, archwiliad o'r nodiadau clinigol, archwiliad o ansawdd a diogelwch pelydr-X, archwiliad o gardiau cofnodion cleifion, archwiliad o fynediad i bobl anabl ac archwiliad penodol ar gyfer COVID-19.

Cawsom sampl o bolisiau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a gwelsom hefyd eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o brosesau cofnodi digwyddiadau a'i fod yn gwybod sut i gysylltu ag AGIC, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r bwrdd iechyd i roi gwybod am ddigwyddiadau neu i ofyn am gyngor.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw aelodau o'r staff yn absennol oherwydd salwch ar hyn o bryd ac nad oes unrhyw swyddi gwag yn y practis ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym hefyd mai anaml iawn y caiff staff asiantaeth eu defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant y staff, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod rhagor o hyfforddiant atal a rheoli heintiau, diogelu a chymorth cyntaf wedi cael ei drefnu ar gyfer y dyfodol agos, ac y byddai hyfforddiant yn cael ei hwyluso o bell drwy Zoom⁹ lle y bo'n briodol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

⁹ Llwyfan gwegynadledda a sain ar-lein yw Zoom . Mae pobl yn ei ddefnyddio i wneud galwadau ffôn neu i gymryd rhan mewn hyfforddiant neu gyfarfodydd fideoynadledda.

Cynllun gwella

Lleoliad: Deintyddfa Llandeilo Road

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Nid oes angen gwneud unrhyw welliannau				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: